# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT(2)-03-05

Dyddiad y cyfarfod: 9 Chwefror 2005
Amser y cyfarfod: 9.00 - 12.30
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

### Swyddogion:

| **Enw** | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Denzil Jones | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Mike Phelps | Y Prif Gynghorydd Economaidd |
| Julian Revell | Ystadegau Addysg a Hyfforddiant a'r Economi |
| Bob Macey | Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Dylan Hughes | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

## Yn bresennol

| **Enw** | |
|---|---|
| Yr Athro Stuart Cole | Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, Prifysgol Morgannwg |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd aelodau newydd y Pwyllgor DAT, sef Leighton Andrews, Carl Sargeant a Tamsin Dunwoody-Kneafsey, y Dirprwy Weinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

1.3 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Aelodau ar effaith y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) ar geisiadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd Pwyllgor. Yr oedd y Llywydd wedi cael cyfarfod â Phrif Weinidog Cymru, a chytunwyd y dylid ymdrin â materion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wahân i geisiadau a wnaed gan Aelodau, boed hynny mewn cyfarfodydd Pwyllgor, drwy Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau neu Gwestiynau'r Cynulliad. Yr oedd y Cadeirydd wedi cael ar ddeall y byddai'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y mater hwn ar 22 Chwefror, a gofynnodd i Gadeirydd y Pwyllgor Busnes anfon nodyn ysgrifenedig ar y drafodaeth honno i'r Pwyllgor.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Papur: EDT2 03-05(p1)

2.1 Datganodd Leighton Andrews fuddiant, gan nodi bod ei wraig yn Gyfarwyddwr BT Cymru ac yn aelod o Fwrdd Better Business Wales (Holdings) Cyf.

2.2 Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad ar lafar, a cheir copi ar ffurf atodiad i'w adroddiad. Soniodd am yr adroddiad diweddar gan OFCOM, a'r newyddion y byddai'r cwota cynhyrchu yn golygu bod 50% o oriau cynhyrchu a gwariant ITV yn gorfod digwydd y tu allan i Lundain. Yr oedd y Gweinidog wedi lobïo'n galed am ryw ffurf ar ddatganoli ym maes cynhyrchu, a chroesawodd y datblygiad hwn a fyddai'n rhoi hwb i gynhyrchu annibynnol yng Nghymru.

2.3 Wrth ymateb i gwestiwn penodol, cadarnhaodd mai'r Gweinidog dros Ddiwylliant fyddai'n parhau â'r cyfrifoldeb dros ddarlledu. Yr oedd swyddogaeth y Gweinidog DAT yn y maes hwn yn ymwneud â'r diwydiannau creadigol, ac yn benodol, i alluogi un o’r sectorau twf, sef y cyfryngau annibynnol yng Nghymru, i fanteisio i'r eithaf ar ei eiddo deallusol. Mynegodd un Aelod bryder y gallai'r rhaniad hwn olygu na fyddai modd cael trafodaeth lawn ar strategaeth OFCOM. Cytunodd y Cadeirydd i drafod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant a fyddai modd cynnal cyfarfod ar y cyd. [Gweithredu: Cadeirydd/ Clerc]

2.4 Yng nghyd-destun y prosiect Technium Modurol arfaethedig yn Llanelli, yr oedd rhai Aelodau yn bryderus fod gwybodaeth wedi'i rhyddhau i'r wasg o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn awgrymu mai diffyg cyllid oedd y rheswm am yr oedi cyn cychwyn y prosiect. Yr oeddynt yn pryderu fod hyn yn arwydd o gwtogi ar gyllid Ffordd i Ffyniant (P2P) Awdurdod Datblygu Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.5 Dywedodd y Gweinidog mai'r mater allweddol oedd y flaenoriaeth a roddwyd gan y WDA i gefnogi'r Cronfeydd Strwythurol. Erbyn hyn yr oedd o'r farn nad oedd y WDA, hyd at ganol y llynedd, wedi gweld y cronfeydd strwythurol fel eu prif flaenoriaeth. Dyma oedd un o'r rhesymau y tu ôl i benderfyniad y Prif Weinidog i gyhoeddi y byddai'r WDA yn cael ei uno â'r Cynulliad. Yr oedd wedi datgan yn glir y dylai'r WDA ystyried P2P fel cronfa i'w defnyddio yn niffyg unrhyw ddewis arall, nid fel dewis cyntaf, ac y dylent ddefnyddio'u cyllid craidd fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau. Ni chwtogwyd ar y cyllid P2P o ganlyniad, ond yr oedd cyllid wedi cael ei symud i gyllidebau eraill o fewn y WDA. Yn ôl rhai Aelodau, yr oedd swm y cyllid hwn oddeutu £6m ar gyfer 2003-04, a chytunodd y Gweinidog i ddarparu fanylion y cyfrifon er mwyn dangos i ble y symudwyd y cronfeydd hyn. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

2.6 Yr oedd Aelodau wedi'u synnu nad oedd y WDA wedi bod yn gweithio tuag at y blaenoriaethau a bennwyd gan y Gweinidog, gan ofyn ym mha ffordd yr oedd y Gweinidog wedi cyfleu ei safbwynt. Dywedodd ei fod wedi cyfarfod â’r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn gyson, ac y byddai'n ystyried

rhyddhau rhai nodiadau perthnasol o'r cyfarfodydd hynny i'r Pwyllgor, ar fater datblygu'r prosiectau Technium a'r blaenoriaethau yn fwy cyffredinol. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

2.7 Croesawodd yr Aelodau ymgyrch farchnata Llygad Busnes, gan ofyn i'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion ar ddadansoddi cost a budd y math yma o hysbysebu, ynghyd â chanlyniadau arolygon o farn cwsmeriaid. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

2.8 Mynegodd un Aelod bryder am yr amserlen ar gyfer y gwelliannau i orsaf Heol y Frenhines Caerdydd, er mwyn cynyddu'r capasiti ar gledrau'r Cymoedd. Cadarnhaodd y swyddogion bod y cynllun gwreiddiol i gynyddu capasiti, a oedd i gynnwys trac newydd, bellach wedi'i roi o'r neilltu gan fod gwasanaeth Arriva wedi gwella'r capasiti. Yr oedd astudiaeth bellach wedi'i chomisiynu a fyddai'n canolbwyntio ar y gwaith angenrheidiol i wella'r platfform, ond gallai'r trac presennol ddygymod â'r gwasanaethau ychwanegol hyn.

2.9 Wrth drafod y tirlithriad diweddar ar yr A470, cytunodd y Gweinidog i ddod ag adroddiad pellach gerbron y Pwyllgor unwaith y byddai canlyniad yr asesiad peirianyddol manwl ar gael. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

2.10 Mynegodd Aelodau ddiddordeb yn ymweliad y Gweinidog yn fuan â Navarre, Sbaen. Yr oeddynt yn llawn edmygedd o'r gefnogaeth a gafodd y Llywodraeth Ranbarthol gan y cyhoedd ar gyfer offer ynni adnewyddadwy. Ym marn y Gweinidog, cyfathrebu ac ymgynghori oedd wrth wraidd eu llwyddiant. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r grwp yn edrych ar ystod eang o dechnoleg ynni adnewyddwy, a chytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth ar bwy arall fyddai'n mynd ar yr ymweliad gydag ef. [Gweithredu: y Gweinidog DAT] Yr oedd un Aelod yn credu y dylai'r Gweinidog ymweld â'r fferm wynt newydd yng Nghefn Croes, er mwyn iddo gynnig ei gefnogaeth i brosiect a allai gyfrannu'n sylweddol tuag at dargedau ynni adnewyddadwy Cymru.

2.11 Cyfeiriodd un Aelod ar y cyhoeddiad diweddar fod UK-Euros Group wedi prynu United Polymers, ac na fyddai'r cwmni bellach yn nwylo'r gweinyddwyr. Roedd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r swyddogion a oedd wedi cynorthwyo â'r broses gaffael.

2.12 Cododd Aelod bwynt penodol ynghylch y gwasanaeth rheilffordd Caerdydd-Maesteg, a'r ffaith fod y gwasanaeth yn aml heb fod yn rhedeg i'r gogledd o Dondu. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi cael cyfarfod â Threnau Arriva yn ddiweddar, a'u bod yn cydnabod fod problemau yn ystod oriau brig ar gledrau'r Cymoedd. Nid oedd y broblem benodol hon ar gynnydd, ond addawodd y Gweinidog y byddai'n monitro'r perfformiad.

2.13 Wrth ymateb i gwestiwn penodol, cytunodd y Gweinidog gynnwys yn ei adroddiad nesaf y newyddion diweddaraf ar garthu'r Afon Dyfrdwy, ac effaith hynny yn y dyfodol ar Frychdyn a Doc Mostyn. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

2.14 Gofynnodd Aelod am wybodaeth ychwanegol ar y ffigurau yn Adroddiad y Gweinidog ar Gyswllt

Ffermio a'r swyddi a grewyd gan Amcan 1. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch sawl un o'r 375 prosiect Cyswllt Ffermio oedd bellach yn weithredol, nifer y swyddi anuniongyrchol a grewyd drwy arian Amcan 1, a sut yr oedd y swyddi hynny'n cael eu mesur. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

2.15 Dilynwyd hyn gan drafodaeth ar y data yn yr Adroddiad Economaidd Chwarterol a'r Bwletin Ystadegol. Tynnodd Aelodau sylw at y cynnydd yn y lefel anweithgarwch economaidd yn ystod chwarter olaf 2004. Yr oedd hyn yn groes i'r duedd yn y DU. Amlinellodd y Gweinidog y problemau difrifol iawn ynghylch anweithgarwch economaidd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â nifer y bobl yn derbyn Budd-dal Analluogrwydd a oedd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, a'r stigma cysylltiedig a oedd yn ei gwneud yn anodd iddynt ddod o hyd i waith. Esboniodd y swyddogion fod anweithgarwch economaidd wedi cynyddu dros y cyfnod dan sylw, ond fod y ffigurau yn cyfeirio at bawb dros 16 oed. Gwelwyd llai o gynnydd yn yr un ffigur ar gyfer pobl o oedran gwaith dros yr un cyfnod.

2.16 Gofynnodd Aelodau pam fod niferoedd y cofrestriadau TAW a'r datgofrestriadau TAW ar gynnydd. Esboniodd y swyddogion nad oedd yn anarferol i gael tueddiadau tebyg yn lefelau'r cofrestriadau a'r datgofrestriadau. Yn draddodiadol yr oedd gan Gymru gynrychiolaeth uchel mewn sectorau lle na fyddai llawer o gofrestriadau newydd, megis y sector amaethyddiaeth, ynghyd â chynrychiolaeth isel mewn sectorau megis y sector gwasanaethau ariannol, lle byddai lefelau'r cofrestriadau newydd yn tueddu i fod yn uwch. Yr oedd hyn yn esbonio'n rhannol y gwahaniaeth yn y cyfraddau cofrestru rhwng Cymru a Lloegr.

2.17 Trafodwyd y ffigurau GVA a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Eurostat, a'u heffaith ar y cronfeydd strwythurol yng Nghymru ar ôl 2006. Yn ôl y ffigurau presennol, petai penderfyniad cynnar gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin, yr oedd yn ymddangos y byddai'r Gorllewin a'r Cymoedd yn derbyn cronfeydd strwythurol ar ôl 2006. Rhoddodd Aelodau bwysau ar y Gweinidog i ddatgan pa drafodaethau oedd ar y gweill ganddo i sicrhau penderfyniad buan. Dywedodd y Gweinidog mai amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd sicrhau'r trefniant gorau posibl i Gymru. Byddai'r trafodaethau yn parhau ar lefel swyddogion ac ar lefel wleidyddol.

2.18 I gloi'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i Mike Phelps am ei gyfraniad at drafodaethau'r Pwyllgor yn y gorffennol, gan ddymuno'r gorau iddo ar ei ymddeoliad.

## Eitem 3: Anghenion Trafnidiaeth a Pholisi Trafnidiaeth yng Nghymru

## Papur: EDT2 03-05 (p4)
## Papur: EDT2 03-05 (p5)

3.1 Cyflwynodd yr Athro Stuart Cole y ddau bapur, gan esbonio mai ei safbwynt personol oedd cynnwys papur 4, yn amlinellu anghenion trafnidiaeth Cymru yn y tymor byr a'r tymor hir. Yr oedd papur 5 yn cynrychioli barn Grwp Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, oedd yn cynnwys pum corff

proffesiynol, ac yn canolbwyntio ar ddyfodol hir-dymor trafnidiaeth yng Nghymru. Yr oedd yn edrych ar wendidau polisïau trafnidiaeth y gorffennol, ac yn bwrw golwg ar y sefyllfa bosibl yn 2040.

3.2 Amlinellodd yr Athro Cole brif benawdau'r papur, sef ceisio rhagweld beth fyddai'n digwydd gyda thrafnidiaeth ar y ffyrdd dros y 20 mlynedd nesaf; y cysylltiadau trafnidiaeth y byddai'n rhaid eu sefydlu yng Nghymru er mwyn sicrhau twf economaidd;a'i safbwynt ar y polisi trafnidiaeth integredig.

3.3 Nododd y byddai ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn dylanwadu ar deithio, ac yn pennu natur trafnidiaeth dros y 40 mlynedd nesaf. Byddai'r cynnydd mewn cyfoeth yn rhoi mwy o gyfle i bobl deithio, a fyddai'n effeithio yn y pen draw ar deithio ar y ffyrdd a theithio awyr.

3.4 Nododd yr Aelodau bwysigrwydd ystyried dyfodol hir-dymor trafnidiaeth. Yr oeddynt yn bryderus fod amserlen yr adroddiad, sef hyd at 2040, yn rhy araf o ystyried cyfradd bresennol y newid yn yr hinsawdd. Esboniodd yr Athro Cole mai'r rheswm dros ddefnyddio 2040 oedd mai dyma'r dyddiad y byddai'r cronfeydd olew y gellid eu defnyddio yn rhedeg allan, yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Shell a BP yn 2002-03. Nododd un Aelod fod rhai adroddiadau yn rhagweld y byddai'r cronfeydd olew economaidd yn parhau am gyfnod hwy. Cytunodd yr Athro Cole, ond atgoffodd yr Aelodau na fyddai'r cronfeydd olew yn parhau am byth.

3.5 Cafwyd esboniad pellach gan yr Athro Cole ar faterion ynghylch ynni, a dywedodd mai un o'r problemau yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y defnydd o adnoddau ynni oedd y cynnydd yn y galw am geir, ond hefyd y cynnydd mewn teithio awyr, a hynny o ganlyniad i'r cwmnïau awyrennau rhatach. Dywedodd bod angen buddsoddi mewn ymgyrchoedd hir-dymor i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd, gan amlinellu effeithiau'r mathau hyn o drafnidiaeth ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

3.6 Yr oedd rhai Aelodau'n bryderus am lefel y pwerau a roddwyd i Gymru trwy gyfrwng y Mesurau Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth, ac yn arbennig y Mesur Rheilffyrdd. Tynnodd un Aelod sylw at yr angen am drenau cyflymach yng Nghymru, ond nad oedd y Mesur Rheilffyrdd yn rhoi pwer i Gymru ddylanwadu ar yr isadeiledd er mwyn cyflawni hyn.

3.7 Wrth ymateb, nododd yr Athro Cole fod y Mesur Rheilffyrdd wedi rhoi rhywfaint o reolaeth i'r Cynulliad dros y system reilffyrdd, ond y byddai wedi hoffi gweld Cymru yn derbyn pwerau tebyg i rai Gweithrediaeth yr Alban. O ran y trenau cyflymach, nododd y bu cynnydd yn nifer y gwasanaethau trenau o Gaerdydd i Lundain ac o Abertawe i Lundain, ond bod angen mwy o ddylanwad ar y Cynulliad dros Fasnachfraint Great Western.

3.8 Nododd un aelod y sgil-effeithiau o ganlyniad i amserlenni newydd Great Western. Yr oedd pobl yn teithio ymlaen o Abertawe a Chaerdydd yn aml yn colli eu trenau cysylltu. Nododd y Gweinidog y mater hwn, gan ddweud nad oedd ganddo unrhyw reolaeth dros amserlenni Great Western, ond y byddai'n codi'r mater gyda deiliaid y fasnachfraint. [Gweithredu: y Gweinidog DET]. Pwysleisiodd y Gweinidog ei fod wedi ymrwymo i wella teithio ar y rheilffyrdd, ac y byddai'n lobïo er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu gwella yn sgil adnewyddu Masnachfraint Great Western, a fyddai'n

digwydd yn ddiweddarach eleni.

3.9 Gofynnwyd cwestiynau penodol gan un Aelod ar y buddsoddiad yn y rheilffyrdd, ac yn arbennig y buddsoddiad yn y rheilffordd rhwng Aberystwyth ac Amwythig. Credai y byddai'n fwy cost-effeithiol i ddyblu'r capasiti ar y rheilffordd drwy ddyblu'r dolenni, yn hytrach na buddsoddi mewn rhwydwaith ffyrdd newydd. Yn ôl y swyddogion, yr oedd yr astudiaeth a gwblhawyd y llynedd wedi codi materion yn ymwneud â dolen Dyfi. Y farn ar hyn o bryd oedd y byddai angen mwy nag un ddolen. Nid y buddsoddiad cyfalaf oedd yr unig broblem, ond hefyd y gost o redeg y gwasanaeth. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb DAT bresennol i dalu am hyn yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

3.10 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth ar faint o'r £8 biliwn a glustnodwyd yn y cynllun trafnidiaeth 15 mlynedd oedd i'w wario ar y rheilffyrdd, ac yn benodol ar rwydweithiau rheilffyrdd y Canolbarth a'r Gogledd. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

3.11 Cyfeiriodd un aelod at y Systemau Cludiant Cyflym Ysgafn, a'r ffaith fod yr amser cyn cychwyn y prosiectau yn rhy hir. Cytunodd yr Athro Cole, gan ddweud bod hyn o ganlyniad i natur a strwythur y cyfleusterau trafnidiaeth yn y Deyrnas Unedig. Cyfeiriodd at y TGV yn Ffrainc, gan ddweud ei fod wedi cael effaith sylweddol ar deithio awyr, gan orfodi Air Inter i roi'r gorau i fasnachu.

3.12 I gloi'r drafodaeth, croesawodd yr Athro Cole y pwerau ychwanegol a oedd yn yr arfaeth ar gyfer y Cynulliad, yn sgil y Mesurau Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth. Nododd y bu'r trafodaethau ynghylch y ddau fesur trafnidiaeth yn anodd a chymhleth iawn.

## Eitem 4: Uno'r CCNC â'r Llywodraeth

## Papur: EDT2 03-05(p6)
## Papur: EDT2 03-05(p7)

4.1 Datganodd Elin Jones ddiddordeb gan fod ganddi bensiwn y WDA, yn cael ei weinyddu gan RCT.

4.2 Cyflwynodd y Gweinidog y papurau, gan nodi mai dyma oedd cyfle cyntaf y Pwyllgor i ystyried y broses o uno'r CCNC yn ffurfiol. Dywedodd bod gwaith sylweddol eisoes wedi'i gyflawni gan y pedwar sefydliad dan sylw, a oedd wedi arwain at ddogfen ymgynghori yn nodi'r prif faterion ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

4.3 Yn ôl y Gweinidog, bu llawer o gamddealltwriaeth ynghylch y broses uno, gan beri dychryn i staff yr CCNC, ond yr oedd wedi tawelu'r ofnau hynny gan ddweud y byddai'r gwasanaethau presennol a ddarparwyd yn parhau. Yr oedd yr Undebau Llafur wedi bod yn rhan o'r broses o'r cychwyn, ac wedi canmol y broses. O fis Ebrill 2006 ymlaen, yn gyfreithiol, byddai'r WDA, y Bwrdd Croeso ac ELWa yn rhan o'r Cynulliad, ond nid dyna fyddai diwedd y broses uno, gan mai 'proses ac nid digwyddiad' ydoedd.

4.4 Wrth ymateb, gofynnwyd cwestiynau penodol gan yr Aelodau am y broses uno. Roeddynt yn awyddus i wybod sut y byddai modd craffu ar waith yr CCNC ar ôl yr uno.

4.5 Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog mai mater i'r Pwyllgor oedd penderfynu sut i graffu ar yr CCNC ar ôl yr uno. Dywedodd y byddai'r uno yn rhoi mwy o gyfle i graffu arnynt, gan y byddai modd ei holi ef ar eu gweithgareddau bob tair wythnos, yn hytrach na dwywaith y flwyddyn fel ar hyn o bryd. Ychwanegodd y byddai'r broses archwilio arferol yn parhau trwy gyfrwng y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ni fyddai'n disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol i dargedau'r WDA a'r Bwrdd Croeso, er na ellid cadarnhau hynny'n bendant. Byddai'r Cynlluniau Busnes yn dod gerbron y Pwyllgor yn yr hydref, a byddai cyfle i graffu arnynt yn y modd arferol.

4.6 Yn ogystal, nododd Aelodau bwysigrwydd sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn parhau'n ganolog yn y strwythurau newydd arfaethedig. Yr oeddynt yn awyddus i gael sicrwydd na fyddai'r uno yn arwain at oedi yn y broses o ariannu busnesau.

4.7 Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r pwyllgor na fyddai'r uno yn effeithio ar yr ariannu ar gyfer y dyfodol ac y byddai popeth yn symud yn ei flaen yn y ffordd arferol. Dywedodd fod ei swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r WDA ar gylch cynllunio'r gyllideb gyfredol, ac nad oedd unrhyw faterion yn cael eu gohirio. Dywedodd nad oedd yr uno yn ymwneud yn unig â phrosesau a strwythurau, ond ei fod hefyd yn ymwneud â diwallu anghenion y cwsmer. Hyd yma, yr oedd wedi cynnal oddeutu 30 o gyfarfodydd gyda sefydliadau busnes a chyflogaeth i ofyn eu barn.

4.8 Nododd Aelodau bod y ddogfen ymgynghori yn sôn am arbedion o £10m - £12m o 2009 ymlaen; yn ôl y Gweinidog yr oedd y rhain yn deillio o'r dadansoddiad busnes cychwynnol, a chytunodd i ddarparu dadansoddiad o'r arbedion pan fyddai rhagor o waith wedi'i gyflawni. [Gweithredu: y Gweinidog DAT] Gofynnwyd am wybodaeth hefyd ar beth fyddai'n digwydd i'r cynlluniau pensiwn cyfredol, a sut y byddai'r uno yn effeithio ar raddau staff y WDA a'r Bwrdd Croeso. Dywedodd y Gweinidog fod gwaith ar y gweill, a chytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth maes o law. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

4.9 Wrth ymateb i'r cwestiynau, dywedodd y Gweinidog y bu ymgynghori gyda'r undebau perthnasol ar faterion staffio, a'u bod wedi cymryd rhan lawn yn y naw maes gwaith a sefydlwyd yn sgil y cyhoeddiad. Dywedodd nad oedd y trosiant staff yn y WDA na'r Bwrdd Croeso wedi cynyddu yn dilyn y cyhoeddiad am uno'r CCNC. Dywedodd y swyddogion y byddai 90% o'r staff yn symud heb unrhyw broblem, ac mai natur y swyddi, ac nid tâl, fyddai'n gyfrifol am bennu graddau swyddi. Ar gyfer swyddi newydd, pan fyddai newidiadau sylweddol rhwng y swyddi hynny a'r uwch swyddi presennol, byddai proses gystadleuol agored yn cael ei chynnal.

4.10 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at yr undebau a oedd yn ymwneud â'r broses uno er mwyn canfod beth oedd barn y gweithwyr. [Gweithredu: Cadeirydd]

4.11 O ran yr amserlen, yr oedd y Gweinidog yn disgwyl y byddai'n gallu adrodd ar ganlyniad y broses ymgynghori erbyn mis Ebrill / Mai 2005. Yr oedd mater y lleoliadau yn dal heb ei ddatrys, ond yr oedd

yn debygol o barhau felly am beth amser o ganlyniad i faterion yn ymwneud â phrydlesu eiddo.

4.13 Wrth gyfeirio at faterion gwledig, dywedodd y Gweinidog y byddai bwyd-amaeth yn parhau gydag Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac y byddai datblygu gwledig yn gyfrifoldeb o fewn yr Adran DAT.

4.14 Gofynnodd un Aelod gwestiwn am y broses ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol ar ôl yr uno. Ar hyn o bryd, y WDA oedd yn gyfrifol am y broses, ond y Cynulliad oedd yn delio â'r hawl i apelio. Dywedodd y swyddogion bod gwaith yn parhau ar y manylion, ond un posibilrwydd oedd y byddai'r apeliadau yn mynd at wahanol Weinidogion, sef proses gyffelyb i'r un yn San Steffan. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n rhaid sicrhau bod prosesau priodol wedi'u sefydlu er mwyn amddiffyn hawliau pobl yr oedd eu tiroedd/cartrefi yn destun gorchmynion prynu gorfodol ar ôl yr uno, ac y byddai'n darparu esboniad pellach ar y sefyllfa i'r Pwyllgor. [Gweithredu: y Gweinidog DET]

4.15 Yr oedd un Aelod yn awyddus i gael sicrwydd na fyddai unrhyw bwerau presennol y WDA, ac yn benodol, yr hawl i fenthyca arian, yn cael eu colli pan fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad. Dywedodd y swyddogion y byddai holl bwerau'r Awdurdod yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad.

## Eitem 5: Deddfwriaeth yr UE

## Papur: EDT2 03-05 (p8)

5.1 Gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno'u sylwadau ar yr eitemau yn y papur. Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

## Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

## Papur: EDT2 01-05 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2005
## Papur: EDT2 02-05 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2005
## Papur: EDT2 02-05 Camau i'w Cymryd

6.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.